

**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU****LEGISLATION COMMITTEE
REPORT****Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ("y Rheoliadau") sy'n nodi'r prawf moddion ar gyfer pennu swm y grant a gaiff ei dalu gan awdurdodau tai lleol o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Prif effaith y diwygiad yw nad yw'r prawf moddion bellach yn gymwys pan wneir cais gan riant neu warcheidwad plentyn neu berson ifanc anabl. Mae diwygiadau eraill yn deillio o newidiadau a wneir gan Ddeddf Tai 2004 ac o newidiadau a wnaed i Reoliadau Budd-dal Tai (Cyffredinol) 1987. Gwneir mân ddiwygiadau yn sgîl dwyn i rym Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004.

Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Sylwadau

Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau at fân wallau fformadu a fyddai'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

3 Hydref 2006